Annwyl riant / gwarcheidwad

Fel llawer o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a ledled Cymru, rydym yn gweld achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 yn ein hysgol.

Yn anffodus, mae hyn i'w ddisgwyl wrth inni symud tuag at reoli a byw gyda'r feirws, ynghyd â'r nifer cynyddol o achosion yn ein cymunedau.

Fodd bynnag, hoffem eich sicrhau nad oes achos pryder ar unwaith. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Prawf, Olrhain, Amddiffyn (TTP) GIG Cymru, ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd inni.

Os nodir bod eich plentyn yn gyswllt agos ag achos COVID-19 a gadarnhawyd, bydd TTP yn cysylltu â chi ac yn cynnig dau brawf PCR ar ddiwrnodau dau ac wyth. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth am yr hyn y gellir ei wneud i leihau unrhyw risgiau o ymledu. Gall eich plentyn barhau i fynychu ei ysgol oni bai ei fod yn datblygu symptomau neu'n cael ei gynghori fel arall gan TTP. Dim ond os yw'n bositif y bydd angen i chi hysbysu'ch ysgol o'r canlyniad.

Cofiwch:

- Os yw eich plentyn yn dangos unrhyw un o symptomau 'clasurol' Covid-19 (tymheredd uchel, peswch parhaus newydd neu golled neu newid blas/arogl) ni ddylai fynychu'r ysgol. Archebwch brawf PCR drwy ffonio 119 neu ewch i https://gov.wales/apply-coronavirus-test

- Os yw'r prawf yn gadarnhaol, rhowch wybod i'r ysgol neu y tu allan i oriau, ffoniwch Delta Wellbeing ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan. Dylai eich plentyn hunanynysu a pheidio â mynychu'r ysgol tan y dyddiad a roddir gan y gwasanaeth TTP.

Diogelwch ein disgyblion a'n staff yw ein prif flaenoriaeth ac rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein hysgolion mor ddiogel â phosibl, ond mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd ac yn dilyn canllawiau cyffredinol COVID gan gynnwys profi'n aml, cadw plant gartref os ydynt yn dangos unrhyw symptomau, waeth pa mor ysgafn, a chael y brechlyn pan gaiff ei gynnig (yn cynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed).

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i olchi ein dwylo yn rheolaidd a gwisgo gorchuddion wyneb lle bo angen - er nad yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell yn yr ystafell ddosbarth mwyach, dylai disgyblion ysgolion uwchradd barhau i'w gwisgo ar gludiant ysgol ac mewn ardaloedd cymunedol.

Dim ond os yw'r risgiau lleol yn wahanol i'r sefyllfa genedlaethol y bydd angen i ysgolion ystyried rhoi mesurau pellach ar waith, a bydd y cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion i benderfynu sut y dylid teilwra'r mesurau hyn os oes eu hangen.

Gobeithiwn fod y wybodaeth rydym wedi'i darparu yn galonogol ac yn ddefnyddiol, fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau ysgolion yn ystod COVID gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i wefan y cyngor sirgar.llyw.cymru/addysg a dilynwch @CarmsCouncil ar Facebook a Twitter.

Dolenni Defnyddiol

Prawf Olrhain Diogelu: https://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus

Gwybodaeth gyffredinol am COVID: https://gov.wales/protect-yourself-others-coronavirus
Symptomau a Hunan-ynysu: https://gov.wales/symptoms-and-self-isolation-contact-tracing

Cymorth meddygol: https://gov.wales/check-if-you-need-coronavirus-medical-help

Dear parent / guardian

Like many schools in Carmarthenshire and across Wales, we are seeing confirmed cases of COVID-19 at our school.

Unfortunately, this is to be expected as we move towards managing and living with the virus, together with the rising number of cases in our communities.

However, we would like to reassure you that there is no immediate cause for concern. We are working closely with Carmarthenshire County Council and NHS Wales Test, Trace, Protect (TTP), and are following all the advice and guidance provided to us.

If your child is identified as a close contact of a confirmed COVID-19 case you will be contacted by TTP and offered two PCR tests on days two and eight. You will also be provided with information about what can be done to minimise any risks of onward spread. Your child can continue to attend their school unless they develop symptoms or are advised otherwise by TTP. You only need to notify your school of the result if it is positive.

Please remember:

- *If your child is showing any of the 'classic' symptoms of Covid-19 (a high temperature, a new continuous cough or loss or change in taste/smell) he or she should not attend school. Please book a PCR test by calling 119 or go to https://gov.wales/apply-coronavirus-test*

- *If the test is positive, please let the school know or outside of hours, please call Delta Wellbeing on 0300 333 2222 or by emailing TTP@deltawellbeing.org.uk who will notify the school on your behalf. Your child should self-isolate and not attend school until the date given by the TTP service.*

The safety of our pupils and staff is our main priority and we have done all we can to keep our schools as safe as possible, but it is important we all work together and follow the general COVID guidelines including frequent testing, keeping children at home if they show any symptoms, however mild, and getting the vaccine when offered (includes 16 and 17-year-olds).

It is important we continue to wash our hands regularly and wear face coverings where required – although face coverings are no longer recommended in the classroom, secondary school pupils should continue to wear them on school transport and in communal areas.
Schools will only need to consider putting further measures in place if the local risks differ from the national situation, and the council will work closely with schools to decide on how these measures should be tailored if they are needed.

We hope that the information we've provided is reassuring and helpful, as always, we appreciate your continued support. If you have any questions, please do not hesitate to get in touch.

For all the latest information on school operations during COVID including a comprehensive list of FAQs please visit the council website carmarthenshire.gov.wales/education and follow @CarmsCouncil on Facebook and Twitter.

Useful Links

Test Trace Protect: https://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus

General COVID information: https://gov.wales/protect-yourself-others-coronavirus

Symptoms and Self-isolation: https://gov.wales/symptoms-and-self-isolation-contact-tracing

Medical help: https://gov.wales/check-if-you-need-coronavirus-medical-help